# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Towyn Capel**

**Cartref Ymddeol Towyn Capel**
**Lôn Towyn Capel, Bae Trearddur**
**Caergybi**
**LL65 2TY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 26 Medi 2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Towyn Capel

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Preswyl Towyn Capel |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | [Nodi â Llaw]<br>15 Awst 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yw gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae'r bobl sy'n byw yng Nghartref Preswyl Towyn Capel yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt ac sy'n ymwybodol iawn o'u hanghenion. Gwelsom y bobl a'r staff yn sgwrsio mewn ffordd naturiol a chyfeillgar â'i gilydd. Mae'r cartref bellach wedi ymdrin â'r gostyngiad a fu yn nifer y staff a oedd ar gael i ofalu am y bobl oherwydd salwch, ac mae nifer y staff sydd ar gael wedi cynyddu.

Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau byw yn y cartref, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd a chael dylanwad ar eu hamgylchedd. Mae'r bobl yn cael gwneud dewisiadau personol, fel pryd i godi a mynd i'r gwely a gallant gael dewis amser bwyd.

Mae'r cartref yn daclus ac mae'r argymhellion blaenorol gan y Swyddog Tân wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r gegin yn lân ac yn daclus, ac mae digonedd o fwydydd ffres. Mae'r gegin yn cael ei huwchraddio i sicrhau safonau diogelwch bwyd, a chaiff safonau iechyd a diogelwch eu cynnal.

Dywedodd aelodau o'r staff wrthym eu bod yn hapus wrth eu gwaith a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r darparwr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn monitro ansawdd y gwasanaeth a roddir i'r bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal gan grŵp sefydlog o staff sy'n ymwybodol iawn o'u hanghenion. Mae'r bobl yn cael dewisiadau personol o ran sut i dreulio'u diwrnod a pha brydau bwyd sydd gwell ganddynt. Gwelsom fod y bobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan aelodau'r staff. Dywedodd un o'r bobl sy'n byw yn y cartref wrthym ei fod wedi dewis y cartref ei hun a'i fod yn fodlon ei fyd, *"fi ddewisodd y fan yma, dwi yn hapus iawn yma."* Dywedodd fod y staff yn ofalgar iawn a bod staff y gegin hefyd yn ystyriol iawn o'i anghenion. Dywedodd unigolyn arall ei fod yn hapus yn y cartref ac yn hoffi'r prydau bwyd, ac yn hoffi'r rhyddid i fynd ar ddiwrnodau allan gyda'r teulu. Dywedodd pobl eraill wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd a'r olygfa o'r môr. Mae rhai aelodau o'r staff yn gallu sgwrsio yn Gymraeg â'r bobl ac yn darparu cynnig rhagweithiol ar gyfer yr iaith.

Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd a chael eitemau cyfarwydd o'u cwmpas. Mae gan y bobl eu set deledu, radio a ffôn eu hunain yn eu hystafelloedd ac mae llyfrau a deunyddiau ar gael iddynt sy'n addas ar gyfer eu diddordebau. Gall y bobl fynd ar ddiwrnodau allan a pharhau i fod yn rhan o'r gymuned leol. Gall y bobl ddathlu gwyliau a digwyddiadau arbennig eraill gyda'r bobl eraill yn y cartref os dymunant.

Mae'r darparwr wedi cydymffurfio â'r argymhellion diogelwch bwyd a diogelwch tân i sicrhau amgylchedd mor ddiogel â phosibl i'r bobl. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n cael ei gynnal a'i gadw, sy'n daclus ac sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion.

Mae niferoedd y staff wedi gwella er mwyn sicrhau gofal diogel i'r bobl. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o fesurau diogelu i gadw'r bobl yn ddiogel a'u bod yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn yn unol â'u hyfforddiant, pe byddai ganddynt bryderon am y bobl.

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol y bobl yn canolbwyntio ar eu hanghenion unigol. Gwelsom fod cynlluniau'r bobl yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau. Gall y bobl gael apwyntiadau gofal iechyd ac adolygiadau gan feddyg teulu. Caiff cyfarwyddiadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eu dogfennu'n ofalus. Mae gan y staff system drosglwyddo er mwyn rhoi gwybodaeth a chyfarwyddiadau o un sifft gwaith i'r llall. Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn ffonio'r meddyg teulu mewn modd amserol os bydd y bobl yn sâl.

Mae'r broses o weinyddu a storio meddyginiaeth yn foddhaol. Gwelsom fod yr allweddi i'r ystafell feddyginiaeth a'r troli yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn briodol. Gall y bobl gael eu presgripsiynau mewn ffordd amserol a threfnus. Caiff meddyginiaethau eu storio a'u gwaredu'n ddiogel, a chaiff y prosesau hyn eu harchwilio i sicrhau eu bod yn gywir.

Gwelsom fod digon o staff ar gael i roi gofal i'r bobl heb orfod rhuthro. Mae'r staff yn ymateb i glychau galw cyn gynted â phosibl. Dywedodd y bobl wrthym fod digon o staff ar gael i ddiwallu eu hanghenion. O edrych ar rotas y staff, gwelsom fod lefelau salwch wedi gwella a bod mwy o staff ar gael i weithio sifftiau ac i ofalu am y bobl. Dywedodd y rheolwr fod y lefelau staffio wedi gwella gan fod y gwasanaeth wedi ymdrin â lefelau salwch.

Mae'r darparwr yn monitro'r dangosyddion iechyd a diogelwch yn y cartref, fel cyfraddau cwympo, er mwyn sicrhau na chaiff y bobl eu hesgeuluso. Mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn perthynas â materion diogelu er mwyn sicrhau y gallant eirioli i sicrhau diogelwch y bobl. Caiff dogfennaeth rhoi gofal gyda'r dydd a'r nos ei monitro i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal y mae ei angen arnynt.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn daclus. Dywedodd y bobl eu bod yn fodlon ar yr amgylchedd ac ar eu hystafelloedd. Mae gan y gegin y radd hylendid bwyd uchaf posibl, sef pump. Caiff bwyd ei storio'n briodol ac mae digon o stoc i'r bobl. Rhoddwyd argymhellion Asiantaeth yr Amgylchedd ar waith er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y bobl. Ymdriniwyd ag argymhellion blaenorol gan y Swyddog Tân hefyd. Mae'r gollyngiad yn nenfwd yr islawr wedi'i drwsio a'i dacluso. Mae llawr concrit a system chwistrellwyr yn y nenfwd er mwyn gwella diogelwch tân o amgylch yr ardal golchi dillad. Mae lle storio amgen ar gyfer dodrefn a nwyddau a gedwir yn yr islawr yn cael ei ystyried.

Gwelsom fod gwiriadau larwm tân a diogelwch rheolaidd yn cael eu cynnal yn y cartref. Mae gan y bobl Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng. Mae'r posibilrwydd o bersonoli'r dogfennau hyn ymhellach ar gyfer pob unigolyn yn cael ei ystyried. Caiff deunyddiau glanhau a chemegion eu cadw mewn cwpwrdd dynodedig er diogelwch. Caiff cyfleustodau fel eitemau trydanol a chyfarpar a thymereddau a thanciau dŵr eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Gall y bobl gael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen arnynt ar gyfer eu gofal. Caiff y cyfarpar ei wasanaethu'n unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr a rhoddir y gorau i ddefnyddio cyfarpar sydd wedi torri. Caiff y staff eu hyfforddi mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a symud a chodi a chario'r bobl yn ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn monitro ansawdd y gofal a roddir i'r bobl. Dywedodd y rheolwr ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol. Lle mae angen adolygu'r polisïau a'r Datganiad o Ddiben, mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd i ni bod gwaith yn mynd rhagddo i wneud hynny.

Mae cofnodion y staff a'r gwiriadau cyflogaeth yn foddhaol. Caiff gwiriadau eu cynnal o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i weithio gydag oedolion agored i niwed ac mae'r gwiriadau hynny yn gyfredol. Caiff y staff hyfforddiant gorfodol i sicrhau eu bod yn wybodus mewn perthynas â'u rôl o ddydd i ddydd. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd i'w cefnogi wrth eu gwaith. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hapus yn gweithio yn y cartref a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Dywedodd y staff fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt a'u bod yn rhagweithiol os bydd unrhyw broblemau'n codi.

Nid yw'r darparwr wedi datgan unrhyw anawsterau ariannol i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/12/2022